# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Tachwedd 2019

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat**

(13.45-14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Gwaith dilynol ar barodrwydd Brexit - sesiwn dystiolaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus

(14.00-15.00) (Tudalennau 1 - 22)

Mairwen Harris, Prifysgolion Cymru

Colin Riordan, Prifysgolion Cymru

Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru

Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(15.00-15.05)

**3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Cadeirydd ynghylch y strategaeth ryngwladol ddrafft, swyddfeydd tramor a masnach - 5 Tachwedd 2019**

(Tudalennau 23 - 27)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Tachwedd 2019

(15.05)

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(15.05)

**6 Gwaith dilynol ar barodrwydd Brexit – sesiwn dystiolaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus – trafod y dystiolaeth**

(15.05-15.20)

**7 Gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol**

(15.20-15.30) (Tudalennau 28 - 40)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Pwyllgor Materion Allanol a
Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1NA

5 Tachwedd 2019

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth yn sgil fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 23 Medi.

Strategaeth ryngwladol ddrafft – y cysylltiadau sy'n flaenoriaeth a'r nodau strategol

Mae'r strategaeth ddrafft yn canolbwyntio ar arddangos y genedl; codi ei phroffil a thyfu economi Cymru drwy gynyddu allforion a buddsoddi.

Ffrainc, yr Almaen, ac Unol Daleithiau America yw ein tair cyrchfan fwyaf, yn ogystal â bod ymhlith ein buddsoddwyr mwyaf. Byddwn yn blaenoriaethu marchnadoedd sy'n bodoli eisoes yn Ewrop a Gogledd America, ac yn datblygu cyfleoedd newydd yn y Dwyrain Canol ac Asia, er mwyn cynyddu allforion a buddsoddi.

Drwy gryfhau a dwysáu'r cysylltiadau hyn, byddwn yn gallu creu mwy o gyfleoedd i arddangos y genedl a chodi ei phroffil.

Mae gennym rwydwaith cadarn o swyddfeydd tramor sy'n gweithio'n galed i ddatblygu ein proffil rhyngwladol, a hefyd gysylltiadau sefydlog â llywodraethau'r rhanbarthau hyn.

Bydd fy nghyhoeddiad diweddar o £320,000 gan Gronfa Bontio'r UE yn cryfhau'r gwaith a wneir mewn partneriaeth â'r rhanbarthau sy'n flaenoriaeth, a bydd hynny yn ei dro yn helpu i gyflawni'r tri nod strategol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Strategaeth ryngwladol ddrafft – y cysylltiadau sy'n flaenoriaeth a'r diwydiannau allweddol

Yn yr ymgynghoriad ar y strategaeth, ein bwriad yw profi'r ymateb i'r tri sector yr ydym wedi eu nodi fel rhai i roi ffocws i'n gwaith hyrwyddo. Mae'r strategaeth ddrafft yn hyrwyddo tri diwydiant fel 'canolfannau rhagoriaeth yng Nghymru' – lled-ddargludyddion cyfansawdd; y diwydiannau creadigol, yn benodol y diwydiant ffilmiau a theledu; a seiberddiogelwch.

Bydd y diwydiannau allweddol yn ein helpu i dynnu sylw'r byd at y sgiliau a'r rhagoriaeth sydd ar gael yng Nghymru. Hefyd, maent yn feysydd lle mae arbenigedd eisoes yn bodoli yng Nghymru; lle mae cwmnïau eisoes yn flaenllaw ym meysydd cynhyrchu a datblygu. Mae yma seiliau cadarn sy'n caniatáu inni ddatblygu ein rhagoriaeth a'n potensial sylweddol i sicrhau twf yn y tri maes penodol hyn, yn wyneb yr heriau a allai godi yn sgil Brexit.

Mae gan lawer o'r gwledydd a'r rhanbarthau a nodwyd gysylltiadau â'n diwydiannau allweddol – mae cwmnïau o'r Unol Daleithiau, megis HBO, eisoes wedi cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu yng Nghymru, gan gynnwys yr hir ddisgwyliedig 'His Dark Materials'. Mae Netflix hefyd wedi cydnabod bod Cymru yn cynnig lleoliadau ffilmio gwych, a bu'n ffilmio nifer o gyfresi yma yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae angen inni adeiladu ar y llwyddiant hwn, yn ogystal â datblygu ein diwydiannau creadigol ein hunain.

Mae Llydaw a'r Unol Daleithiau yn cynnal dau o ddigwyddiadau mwyaf y diwydiant seiberddiogelwch, ac mae'r Unol Daleithiau yn arwain yn y maes lled-ddargludyddion cyfansawdd.

Swyddfeydd tramor

Gallaf gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fynychu cyfarfodydd perthnasol yr UE ym Mrwsel. Rydym yn parhau i wneud hynny er gwaethaf penderfyniad Llywodraeth y DU i leihau presenoldeb mewn cyfarfodydd yn sylweddol o 1 Medi ymlaen. Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi mynychu rhai cyfarfodydd lle bu swyddogion Llywodraeth y DU yn bresennol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd (Amaethyddiaeth, yr Hinsawdd). Nid oeddent yn cyfrannu ar lafar ynddynt ac nid oedd cynrychiolydd o Lywodraeth y DU yn bresennol. Nid wyf yn cytuno â phenderfyniad Llywodraeth y DU i leihau presenoldeb ei swyddogion, sef penderfyniad na roddwyd unrhyw resymeg gredadwy a allai fod y tu ôl iddo, ac a oedd heb ei drafod ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i nodi ein materion o flaenoriaeth mewn cyfarfodydd o'r fath, ac i sicrhau ein bod yn cymryd rhan, p'un a yw Llywodraeth y DU yn bresennol ai peidio.

Concordat ar Fasnach

Nid ydym wedi gallu symud ymlaen â'r Concordat yn dilyn y newid diwethaf o ran Gweinidogion yn Llywodraeth y DU. O dan lywodraeth Theresa May, roedd Gweinidogion blaenorol yr Adran Masnach Ryngwladol wedi rhoi sicrwydd imi na fyddai'r negodiadau'n digwydd heb fod y Concordat yn ei le. Nid oedd hwn yn gytundeb a oedd yn eu hymrwymo, ac ni allwn warantu y bydd y Concordat ar waith cyn i'r negodiadau ddechrau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws y DU i gryfhau'r peirianwaith rhynglywodraethol, gan gynnwys mewn perthynas â pholisi masnach, ac rydym yn parhau i gael ein sicrhau y byddwn yn cael cyfrannu at y gwaith o ddatblygu safbwyntiau negodi.

O dan lywodraeth Boris Johnson, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol wedi cytuno i sefydlu'r Fforwm Masnach y Gweinidogion ac roedd cynlluniau mewn lle i'r fforwm gwrdd ym mis Hydref. Gohiriwyd y cyfarfod o ganlyniad i'r etholiad cyffredinol. Rwy'n gobeithio na fydd Llywodraeth y DU a ffurfir ar ôl yr etholiad yn cychwyn y gwaith hwn o'r dechrau unwaith eto ac y gallwn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma i roi

trefniadau rhynglywodraethol ffurfiol mewn lle mor fuan â phosib. Byddaf, wrth gwrs, yn pwyso ar unrhyw Weinidogion newydd o fewn Llywodraeth y DU i symud y gwaith yma yn ei flaen fel mater o frys.

Fel y gofynnwyd, rwyf wedi amgáu copi o lythyr Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol ynglŷn â pharthau rhydd *(freeports)*.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei ddiddordeb parhaus yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Ryngwladol. Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn adborth yn dilyn eich cyfarfod ar 21 Hydref.

Yn gywir



**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Rt Hon Elizabeth Truss MP
Secretary of State for International Trade
3 Whitehall Place
Westminster
London
SW1A 2HP

18 September 2019

Dear Liz,

Following the UK Government's announcement on the 2 August regarding the establishment of a free port's advisory panel, I would like to take this opportunity to set out Welsh Government's position in respect of the proposal for up to 10 free ports in the UK.

We remain open to exploring the concept of establishing free ports in Wales further and it is crucial for Welsh Government to be involved in the conversation at an early stage. This is particularly important as establishing successful free ports in Wales could only be feasible using policy levers which are devolved, including infrastructure investment, clarified planning and consents systems and spatial policies, to name just a few examples.

As one of your priority areas, it is clear that your department is moving forward on this work at pace. To date there has been little engagement from UK Government with us on this matter, and going forward I would like your assurance we are included in this work as a key partner in order to establish an effective policy framework for Welsh ports. Welsh Government has to date been a very constructive partner with your Department in relation to your other priorities around trade policy and trade delivery. We can only continue with in this if you do not roll back on the trust and working relationship which was established with your predecessor.

My Ministerial colleague, Eluned Morgan AM, made clear in her welcome letter that it is vital that the UK's emerging trade policies, and any detailed negotiations on new trade agreements, should reflect the interests of Wales and the whole of the United Kingdom. In your recent speech at the International Trade Dinner I was particularly encouraged by your acknowledgement that trade policy has to work for the whole of the UK. I am seeking your assurance that, for the reasons I have stated above, the concept of free ports is also developed in a way that reflects the whole of the UK.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

There is a significant amount of work to do in order to fully assesses the true impact of free ports in the UK, and it is essential that the Welsh Government's role as the devolved Government in Wales be appropriately recognised. My officials stand ready to engage with your officials. I am particularly keen for discussions to take place around the potential impacts on employment rights, environmental standards, as well as the potential for the unintended displacement of economic activity.

I am copying this letter to the Minister for International Relations and Welsh Language, Chancellor of the Exchequer and the Secretary of State for Wales.

Yours ever,

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon